Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

General Chiropractic Council

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023

Cynnwys

Ynglŷn â'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol 2
Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith 2
Cefndir 2
Crynodeb 3
Ein cynnydd yn 2023 3
Metrigau'r Gymraeg 5

Ynglŷn â'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Mae'r Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (CCC) yn gorff statudol annibynnol sy'n gyfrifol am reoleiddio'r proffesiwn ceiropracteg yn y DU, Ynys Manaw a Gibraltar. Ei rôl yw diogelu iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy sicrhau'r safonau uchaf o ymarfer yn y proffesiwn ceiropracteg.

Wedi'i sefydlu gan Ddeddf Ceiropractyddion (1994), mae'r CCC yn un o ddeg rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol yn y DU. Cafodd ei gyfrifoldebau rheoleiddio eu hehangu drwy Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015, sy'n pennu y dylai'r holl reoleiddwyr:

1) Diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd.
2) Hyrwyddo a chynnal hyder y cyhoedd yn eu proffesiynau perthnasol.
3) Hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiwn hwnnw.

Mae gan y CCC ddyletswydd yn unol â'r Ddeddf Ceiropractyddion i ddatblygu'r proffesiwn. Mae'n cyflawni'r ddyletswydd hon drwy:

1) Cynnal cofrestr genedlaethol o geiropractyddion. Ni all person ymarfer na disgrifio ei hun fel ceiropractydd oni bai ei fod wedi cofrestru gyda'r CCC.
2) Cynnal y Côd safonau ymddygiad, perfformiad a moseg i geiropractyddion.
3) Gweithredu os na fydd ceiropractydd yn bodloni'r safonau sydd yn y Côd.
4) Gosod safonau addysgol i unigolion sy'n hyfforddi i fod yn geiropractyddion.

Rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith

Cefndir

Ar 31 Hydref 2022, daeth Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 i rym ac yn dilyn hysbysiadau drafft ac ymgynghoriadau â'r Weithrediaeth, fe'u cyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i'r GCC drwy ei hysbysiad cydymffurfio terfynol ym mis Mehefin 2023, yn weithredol o 6 Rhagfyr 2023.

Mae 67 Safon i'w bodloni. Croesawodd y CCC y fframwaith fel dull clir o sut y gallwn wasanaethu'r cyhoedd yn Gymraeg ac ystyried effaith ein llunio polisi ar y defnydd o'r Gymraeg.

Y tu hwnt i'r safonau rydym yn cydnabod ac yn cefnogi ysbryd y fframwaith fel ffordd o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg – ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym am ei annog gyda'r unigolion sydd wedi cofrestru gyda ni.

Crynodeb

Cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad cydymffurfio terfynol i'r GCC ym mis Mehefin 2023, ac o 6 Rhagfyr 2023 roedd y GCC yn destun Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022.

Mae blwyddyn ariannol y GCC yn rhedeg o fis Ionawr i fis Rhagfyr (gan ei bod yn adlewyrchu'r flwyddyn gofrestru) ac felly mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu rhwng 6 Rhagfyr a 31 Rhagfyr 2023 yn ffurfiol. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi manteisio ar y cyfle i amlygu rhai o'r gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gynhaliwyd gennym yn gynharach yn 2023 wrth baratoi ar gyfer 6 Rhagfyr.

Ein cynnydd yn 2023

Mae'n rhaid i'r GCC fodloni 67 safon. Nid yw llawer o'r safonau yn cael eu hysgogi hyd nes y bydd gweithredu allanol yn digwydd (er enghraifft aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â ni yn Gymraeg) fodd bynnag rydym yn hyderus yr oedd gennym brosesau ar waith o 6 Rhagfyr i fodloni 66 o'r safonau hyn. Cytunwyd â Chomisiynydd y Gymraeg i ohirio gweithredu'r safon ddiwethaf (20 – sy'n ymwneud â chofrestru yn y Gymraeg) tan 1 Mehefin 2024.

Safonau 1-7: Gohebiaeth a chyswllt

Ni wnaeth y GCC dderbyn nac anfon unrhyw ohebiaeth neu gyswllt cymwys yn ystod y cyfnod. Diweddarwyd templedi llythyron a llofnodion e-bost i amlygu:

Os byddwch yn dewis ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Fodd bynnag, nodwch nad oes yr un o'n staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

Diweddarwyd y system Ymateb Llais Rhyngweithiol ar brif linell ffôn y GCC i gynnig y rhestr lawn o wasanaethau yn Gymraeg i alwyr.

Safonau 8-15: Cyfarfodydd a digwyddiadau cyhoeddus

Ni Chynhaliodd y GCC unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd cymwys yn ystod y cyfnod.

Safonau 16-22: Cyhoeddiadau, cyhoeddusrwydd, dogfennau a ffurflenni

Ni chyhoeddodd y GCC unrhyw ddeunyddiau cymwys yn ystod y cyfnod, fodd bynnag yn ystod 2023 cyhoeddwyd Safonau Addysg y GCC yn Gymraeg (gan gynnwys safonau a disgwyliadau, a chanllaw sut i ddefnyddio); a chanllawiau ar sut i ddefnyddio'r marc Rwyf Wedi Cofrestru.

Marc Rwyf Wedi Cofrestru:

Gall ceiropractyddion lawrlwytho poster personol a marc Rwyf Wedi Cofrestru i amlygu i gleifion eu bod wedi cofrestru gyda'r GCC. Mae'r poster personol a'r marc ar gael yn Gymraeg o'r porth cofrestrydd. Yn ystod 2023 lawrlwythwyd wyth poster Cymraeg unigryw (230 yn Saesneg – ar draws pob gwlad).

Safonau 23-32: Ymchwiliadau ac achosion cyfreithiol

Ni dderbyniodd y GCC unrhyw geisiadau cymwys ar gyfer achosion neu ddogfennaeth yn y Gymraeg yn ystod y cyfnod. Diweddarwyd templedi gwrandawiadau a dogfennaeth a anfonir i'r cofrestrydd i amlygu:

Mae gennych yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyflwyno achosion ysgrifenedig neu gyflwyno dogfennau i ni mewn perthynas â'r ymchwiliad hwn. Rhowch wybod i ni os hoffech siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd, gwrandawiadau, neu alwadau ffôn wedi'u trefnu, neu os hoffech dderbyn dogfennau sy'n ymwneud â'r ymchwiliad hwn yn Gymraeg; a byddwn yn gwneud y trefniadau perthnasol. Sylwer nad oes yr un o'n staff yn siarad Cymraeg

Safonau 33-36: Gwefannau a chyfryngau cymdeithasol

Mae gwefan gyfan y GCC ar gael yn Gymraeg a gellir toglo rhwng Cymraeg a Saesneg gan ddefnyddio'r dolenni CY ac EN yn y bar llywio. Mae gwefan y GCC ar gael yma.

Safonau 37-38: Hysbysiadau Swyddogol

Ni wnaethom gynhyrchu unrhyw hysbysiadau swyddogol cymwys yn ystod y cyfnod perthnasol yn 2023.

Safonau 39-41: Codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau Cymraeg, a'n hunaniaeth gorfforaethol

Ni wnaethom ddarparu unrhyw wasanaethau cymwys yn ystod y cyfnod perthnasol yn 2023. Diweddarwyd ein tudalen gysylltu ar y wefan i gynnwys:

Os byddwch yn dewis cyfathrebu â ni yn Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Fodd bynnag, nodwch nad oes yr un o'n staff yn siarad Cymraeg ar hyn o bryd.

Mae gennym fersiwn Gymraeg o'r hunaniaeth gorfforaethol, ac rydym yn ei defnyddio pan fo'n briodol.

Safonau 42-50: Llunio Polisi

Ni wnaeth y GCC unrhyw benderfyniadau polisi, ni chynhaliodd unrhyw ymchwil i baratoi ar gyfer gwneud penderfyniad polisi, nac ychwaith gynnal unrhyw ymgynghoriadau yn ystod y cyfnod. Cyn 6 Rhagfyr fe wnaethom sicrhau bod yr holl brosesau perthnasol – gan gynnwys y ffurflen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg – wedi eu diweddaru i fodloni'r safonau.

Safonau 51-56: Datblygu ein gweithlu

Asesodd y GCC sgiliau iaith ein gweithlu a gofyn i bob aelod o staff ddilyn cwrs Blasu Ar-lein Cymraeg Gwaith. Ychwanegwyd adran Gymraeg i'r pecyn cynefino staff i sicrhau bod staff y dyfodol hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn deall ein cyfrifoldebau o dan y safonau.

Safonau 57-60: Recriwtio a Phenodi gweithlu

Ni ddechreuodd y GCC unrhyw brosesau recriwtio, na phenodi unrhyw staff, yn ystod y cyfnod perthnasol yn 2023.

Safonau 60-67: Cofnodion, safonau a gwybodaeth sy'n berthnasol i Safonau'r Gymraeg

Rhoddodd y GCC gofnodion ar waith i gipio'r metrigau sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg. Mae'r manylion isod.

Ar 6 Rhagfyr gwnaethom hyrwyddo ein bod bellach yn destun Safonau'r Gymraeg yng nghylchlythyr mis Rhagfyr, gyda dolen at stori newyddion ar y wefan a'r rhestr safonau ar ein gwefan.

Metrigau'r Gymraeg

Yn unol â'n dyletswydd yn safon 66, yn ystod y cyfnod o gychwyn Safonau'r Gymraeg (8) ar y GCC (6 Rhagfyr 2023) i ddiwedd y flwyddyn ariannol (31 Rhagfyr 2023) cofnododd y GCC:

Cwynion	
Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'n cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.	0
Recriwtio Staff	
Nifer y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd O'r rhain y nifer a gategoreiddiwyd fel:	0
Sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol;	0
Angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg ar benodi;	0
Sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol;	0
Nid oes angen sgiliau iaith Gymraeg;	0

Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
Park House
186 Kennington Park Road
Llundain
SE11 4BT

Ff: +44 (0) 020 7713 5155
E: **enquiries@gcc-uk.org**
G:**www.gcc-uk.org**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg